# RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod hybrid y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd Ddydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2026

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Sonia Williams (Cadeirydd) (ar gyfer eitemau 1 i 4 a eitem 6);<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd a Chadeirydd ar gyfer eitem 5)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, Euryn Morris, Pip O'Neill, Dylan Rees, Margaret Murley Roberts a Liz Wood<br><br>Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd) (ar gyfer eitem 5) |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr John Ifan Jones a Derek Owen<br>Y Prif Weithredwr |
| **Hefyd yn bresennol**: | **Aelodau Portffolio**<br><br>Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion,<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones - Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol,<br>Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd,<br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo,<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg,<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd. |

(2.00 o'r gloch yp - 4.20 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu i'r Cynghorydd Sonia Williams ddatgan diddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 5 - Cynllun Strategol Taclo Tlodi, gan ei bod yn Aelod o'r Bwrdd Taclo Tlodi. Fe wnaeth y Cynghorydd Williams adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ddilynol.<br><br>Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 - Craffu ar Bartneriaeth Strategol - Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ei fod yn aelod o Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| | |
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2026 yn gywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Craffu Partneriaeth Strategol - Cyfoeth Naturiol Cymru** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad gan Gyfoeth Naturiol Cymru** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cynllun Strategol Taclo Tlodi** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **derbyn y Cynllun Strategol Taclo Tlodi ar gyfer 2025/26;**<br>• **nodi'r sylwadau ar flaenoriaethau gwaith Taclo Tlodi ar gyfer 2026/27;**<br>• **gofyn i sefydliadau trydydd sector gwblhau asesiad effaith a defnyddio'r canfyddiadau i ysgrifennu ar y cyd ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, er mwyn tynnu sylw at effaith sylweddol rôl arfaethedig y Cyd-bwyllgor Corfforedig mewn perthynas â Chyllid y Gronfa Twf Lleol ar Ynys Môn, a dadlau dros ddychwelyd at fodel y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) (70% refeniw, 30% cyfalaf) i sicrhau fod gwasanaethau hanfodol yn gallu parhau.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor - 2026/2027** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2026/2027;**<br>• **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.** |